# ATODLENNI

## ATODLEN 1

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall

## RHAN 2

### Hysbysiad Etholiad, Enwebu a Dull Ethol

Enwebu

**Cyhoeddi datganiad o'r personau a enwebwyd**

**13.**—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi a chyhoeddi datganiad ("datganiad o'r personau a enwebwyd") yn dangos—

(a) y personau a enwebwyd ac sy'n dal wedi eu henwebu, a

(b) unrhyw bersonau eraill a enwebwyd ond nad ydynt yn dal wedi eu henwebu mwyach, gyda'r rheswm nad ydynt yn dal wedi eu henwebu mwyach.

(2) Rhaid i'r datganiad ddangos—

(a) enwau a disgrifiadau (os oes rhai) y personau a enwebwyd, fel y'u rhoddwyd yn eu papurau enwebu,

(b) yr wybodaeth am eu cyfeiriad cartref (gweler paragraff (3)), ac

(c) yr wybodaeth a gynhwyswyd yn eu datganiadau o aelodaeth plaid, fel y'i rhoddwyd yn eu papurau enwebu.

(3) Yn y rheolau hyn, mae cyfeiriadau at yr wybodaeth am gyfeiriad cartref person a enwebwyd yn gyfeiriadau at yr wybodaeth a ganlyn fel y'i rhoddwyd yn y ffurflen cyfeiriad cartref sy'n cyd-fynd â'r papur enwebu—

(a) pan fo'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cynnwys datganiad na chaniateir cyhoeddi'r cyfeiriad cartref, yr wybodaeth a roddwyd yn unol â rheol 9(7);

(b) pan nad yw'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cynnwys datganiad o'r fath, cyfeiriad y person a enwebwyd.

(4) Rhaid i'r datganiad ddangos y personau sy'n dal wedi eu henwebu yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu cyfenwau, ac os oes gan ddau neu ragor ohonynt yr un cyfenwau, rhaid i'r datganiad ddangos y personau hynny yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu henwau eraill.

(5) Mae rheol 14 (defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin) a rheol 15 (enwau sydd yr un fath neu'n debyg) yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cynnwys y datganiad o'r personau a enwebwyd.